



Children in Wales Plant yng Nghymru

Cymryd Mwy o Ran mewn Gofal Cymdeithasol – Newyddion Diweddaraf y Prosiect Mai 2018

Mae Cymryd Mwy o Ran mewn Gofal Cymdeithasol yn brosiect 3-blynedd sy'n cael ei ddatblygu gan Plant yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn edrych ar gefnogi iechyd, llesiant a hawliau plant.

Fel rhan o'r gwaith hwn rydym ni'n gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i ddatblygu canllawiau ar bynciau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant fel hawliau, iechyd meddwl, a bwyd ac ymarfer. Gallwch chi weld y canllawiau hyn ar-lein yma: <http://www.plantynghymru.org.uk/adnoddau-2/plant-syn-derbyn-gofal/>.

Yn fwyaf diweddar, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc ac rydym ni wedi cyhoeddi dau ganllaw newydd:

1. **Asesiadau Iechyd a Chynlluniau Iechyd** – os ydych chi mewn gofal, byddwch chi'n cwrdd â nyrs neu feddyg ac yn cael asesiad iechyd. Mae'r canllaw yma'n dweud wrthyh chi beth ydy asesiad iechyd a pham mae'n bwysig eich bod chi'n cael un. Mae'n dweud wrthyh chi hefyd am eich hawliau a beth i'w wneud os ydych chi'n anhapus gyda'ch asesiad iechyd neu'ch cynllun iechyd.
2. **Amddiffyn Perthnasau Teuluol: Cysylltiad Da mewn Gofal** - mae'r canllaw yma'n edrych ar y pethau da ynghylch cysylltiad teuluol. Mae'n dweud wrthyh chi hefyd am eich hawliau a sut i gael mwy o lais pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am gysylltiad â'ch teulu. Byddwn ni'n gwneud mwy o waith ar y pwnc yma yn y dyfodol, ac o bosib rhywfaint o hyfforddiant gyda gweithwyr proffesiynol.

Diolch o galon i'r bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda ni i ddatblygu'r canllawiau hyn. Os oes gennych chi unrhyw adborth byddem ni wrth ein bodd i glywed oddi wrthyh chi!

Hoffech chi gymryd rhan yn ein prosiect yn y dyfodol?

Os ydych chi eisiau gweithio gyda ni i ddatblygu rhai adnoddau newydd i blant a phobl ifanc, mae pob croeso i chi gysylltu â ni ar Twitter @childreninwales neu @plantynghymru, neu anfonwch e-bost atom ni yn Emma.Sullivan@childreninwales.org.uk.

